20–60 mun

## Canllaw Gweithgaredd

# Pam y Mae Draenogod Angen Help

**Dolen ddefnyddiol**
Ewch i wefan 'The Big Hedgehog Map' i ganfod faint o ddraenogod sydd wedi'u gweld yn eich ardal chi [www.tiramor.cymru/gaeafgwsg](www.tiramor.cymru/gaeafgwsg) (Adnodd 1)

PECYN ATHRO

Pwnc: **Gaeafgwsg**


CC: 3

**Yr offer sydd ei angen**
- Argraffwch y taflenni gwaith 'Bygythiadau i Ddraenogod' a 'Datrysiadau Posibl', un i bob pâr
- Siswrn
- Pensiliau neu feiros
- Dyfeisiau sy'n gallu gyrraedd y rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil

## I gwblhau'r gweithgaredd

1. Rhannwch set o gardiau datganiad i bob pâr o ddysgwyr i'w trefnu. Gofynnwch iddyn nhw dorri a graddio'r datganiadau hyn ar ffurf diemwnt. Efallai y bydd dysgwyr yn dymuno defnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio a chasglu mwy o wybodaeth am bob bygythiad i wneud penderfyniadau gwybodus. Dylid gosod y bygythiadau mwyaf arwyddocal ar y brig, a'r lleiaf arwyddocal ar y gwaelod.

Mwyaf Arwyddocal



Lleiaf Arwyddocal

2. Anogwch y dysgwyr i drafod eu dewisiadau ac egluro pam eu bod wedi eu graddio fel y gwnaethant. Er enghraifft "Pam ydych chi'n meddwl bod y bygythiad hwn yn fwy sylweddol?"

3. Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu syniadau gyda gweddill y dosbarth. Mae materion systemig (fel colli cynefinoedd a thraffig ffyrdd) yn cael yr effaith fwyaf dwys ac eang, tra bod peryglon mwy lleol neu y gellir eu hatal (fel sbwriel neu goelcerthi) yn cael effaith llai yn gyffredinol.

4. Gellir ymestyn y gweithgaredd drwy annog y dysgwyr i ystyried ac ymchwilio i ddatrysiadau posibl i ddiogelu draenogod a'u cynefinoedd. Gan ddewis un o'r bygythiadau mwyaf sylweddol, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am syniadau creadigol i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn (e.e. creu traffyrdd ar gyfer draenogod trwy ffensys a gwrychoedd; adeiladu cartrefi draenog, fel blychau nythu neu bentyrrau pren; neu, gweithredu terfynau cyflymder arafach mewn ardaloedd â phoblogaethau draenogod hysbys).

5. Ar ôl casglu gwybodaeth, heriwch y dysgwyr i ysgrifennu testun ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yr ysgol, sy'n addysgu eraill am sut i ddiogelu draenogod.

**Canllawiau Post Cyfryngau Cymdeithasol**
1. Dewiswch y llwyfan cyfryngau cymdeithasol i'w ddefnyddio.
2. Crëwch neges ddiddorol, gan gadw'r cynnwys yn gryno (uchafswm o 150 gair).
3. Sicrhewch bod galwad i weithredu clir, e.e., creu gerddi sy'n addas i ddraenogod.
4. Dewiswch ddelweddau cryf, gan sicrhau caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio unrhyw luniau.
5. Defnyddiwch hashnodau perthnasol i gynyddu gwelededd (ee, #draenog, #bywydgwyllt, #cadwraeth).
6. Ystyriwch ddarparu hyperddolennau i wybodaeth ddibynadwy ychwanegol yn eich post.

# Bygythiadau i Ddraenogod

**Rheolau**
*Torrwch y datganiadau allan a'u trefnu ar ffurf siâp diemwnt, gan osod y bygythiadau mwyaf sylweddol i ddraenogod ar y brig a'r lleiaf sylweddol ar y gwaelod.*

*Trafodwch eich dewisiadau gyda'ch partner a byddwch yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau i weddill y dosbarth.*

### Colli cynefinoedd
*Mae colli cynefinoedd naturiol fel gwrychoedd a choetiroedd yn lleihau'r lle sydd ar gael i ddraenogod fyw a phorthi.*

### Plaladdwyr
*Mae'r defnydd eang o blaladdwyr yn niweidio draenogod trwy ladd y pryfed maen nhw'n dibynnu arnyn nhw i gael bwyd.*

### Trafnidiaeth ffyrdd
*Yn aml mae draenogod yn dioddef damweiniau ffyrdd, yn arbennig wrth groesi ffyrdd yn y nos. Amcangyfrif bod 200,000 yn cael eu lladd bob blwyddyn ar y ffyrdd.*

### Peryglon gerddi ac eraill
*Gall peryglon dynol megis pyllau, rhwydi, a pheiriannau garddio fel torwyr gwair a strimwyr niweidio draenogod. Mae rhwydi goliau pêl-droed hefyd yn beryglus.*

### Newid hinsawdd
*Gall gaeaf cynhesach darfu ar drwmgwsg draenogod, gan eu gwneud yn fwy tebygol o ddeffro'n aml a defnyddio'u cronfeydd egni.*

### Newidiadau tywydd
*Gall newidadau patrwm tywydd effeithio ar argaeledd pryfed, prif ffynhonnell bwyd draenogod.*

### Tarfu ar safleoedd nythu
*Gall tarfu gan bobl ar safleoedd nythu roi straen ar ddraenogod ac amharu ar eu cylchoedd bridio, gan arwain at lai o rai bach.*

### Heintiau ffwngaidd
*Gall draenogod fod yn agored i heintiau ffwngaidd, yn enwedig mewn amodau llaith, a all wanhau eu systemau imiwnedd a'u gwneud yn fwy agored i fygythiadau eraill.*

### Trogod
*Gall gaeafau cynhesach a gwlypach greu amodau delfrydol i drogod oroesi a lluosogi. Mae trogod yn cario clefydau sy'n gallu peryglu iechyd draenogod.*

### Creulondeb dynol
*Yn anffodus, mae rhai pobl yn parhau i niweidio draenogod yn fwriadol, naill ai drwy greulondeb neu anwybodaeth, sy'n gallu arwain at ganlyniadau trychinebus i ddraenogod.*

### Coelcerthi
*Gall draenogod chwilio am loches mewn coelcerthi sydd heb eu cynnau. Pan fydd y goelcerth yn cael ei chynnau, gall draenogod gael eu hanafu neu eu lladd gan eu bod yn cyrlio i fyny yn hytrach na rhedeg i ffwrdd.*

### Sbwriel
*Gall draenogod gael eu dal mewn sbwriel sy'n cael ei daflu, fel cylchoedd plastig neu ganiau.*



*Gall draenogod rhedeg hyd at 6 milltir yr awr!*

# Datrysiadau Posibl

*Ymchwiliwch i ddatrysiadau posibl, fel creu gerddi sy'n gyfeillgar i ddraenogod, adeiladu blychau nythu, neu arafu traffig mewn ardaloedd lle mae draenogod yn byw. Meddyliwch am sut y gall y syniadau hyn helpu i ddiogelu draenogod a lleihau'r bygythiadau sy'n eu hwynebu.*

## Ar ôl i chi gasglu eich gwybodaeth, ysgrifennwch ddarn ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yr ysgol!

**Cyfanswm 150 o eiriau**

*Yn eich post, eglurwch pam y mae draenogod angen help a rhannwch sut y gall pobl eu gwarchod. Byddwch yn greadigol a rhannwch awgrymiadau syml y gall eraill eu dilyn i wneud gwahaniaeth go iawn!*



*Mae gan ddraenog rhwng 5000 a 7000 o bigau!*